TAITH PYLLAU GLO CYMRU
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA

A WELSH COAL MINING EXPERIENCE
RHONDDA HERITAGE PARK

LlyfrynAddysg

Sesiynau addysgol mewn atyniad i'r teulu ac amgueddfa arobryn, wedi'u lleoli ar safle Hen Lofa Lewis Merthyr

"Byddwch chi'n dysgu wrth archwilio hanes rhyngwladol eithriadol diwydiant, brwydr a chymuned a ddatblygodd yma ar ein stepen drws."

National Autistic Society | Autism Friendly 2019

SANDFORD AWARD

2019 CERTIFICATE of EXCELLENCE tripadvisor

AMGUEDDFA ACHREDEDIG
ACCREDITED MUSEUM

RHONDDA CYNON TAF

Enillwyr Gwobr Sandford 2019

“Mae gweithgareddau, dehongliad a chyfleusterau Taith Pyllau Glo Cymru o safon uchel iawn. Mae’r garfan dysgu yn cynnig profiad dysgu eithriadol sy’n cynnwys dealltwriaeth fanwl o wyddoniaeth a hanes diwydiant glo Cwm Rhondda yn ogystal â mewnwelediad teimladwy o fywyd dan y ddaear a’r materion cymdeithasol a gwleidyddol ehangach a effeithiodd ar y gymuned. Yn ogystal â hyn, mae gan y rhaglen ddysgu’r gallu i atgyfnerthu ymdeimlad plant lleol o’u rolau nhw fel dinasyddion byd-eang a chyfraniad pwysig eu cymuned i’r byd.”

Christine Chadwick
Ymgynghorydd Treftadaeth a Beirniad Gwobr Sandford

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh

Croeso i

Daith Pyllau Glo Cymru, Parc Treftadaeth Cwm Rhondda

Pa le gwell i ysbrydoli dysgu na’r lleoliad eiconig yma lle cafodd diwydiant byd-eang ei gynnal gan ymdrechion dewr y glowyr?

Mae ein sesiynau ymarferol a rhyngweithiol wedi’u cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gan ddilyn y pedwar diben er mwyn creu sesiynau sy’n addas ar gyfer oedrannau ac anghenion dysgu gwahanol. Mae modd amrywio’r sesiynau i sicrhau diwrnod diddorol, addysgol a llawn hwyl. Mae modd amrywio’r sesiynau i sicrhau diwrnod hwyl, hudol ac addysgol.

Bydden ni’n falch o weithio gyda chi er mwyn teilwra’ch ymweliad o amgylch anghenion eich grŵp. Cewch chi amrywio’r gweithgareddau a rhoi cynnig ar gynifer ag y dymunwch chi!

Os oes angen cymorth arnoch chi i wneud y gorau o’ch ymweliad, cysylltwch â ni fel bod modd i ni lunio amserlen unigryw ar eich cyfer chi.

Rydyn ni’n cynnig ymweliadau ymlaen llaw i athrawon ac mae modd cynnal unrhyw un o’n gweithdai yn eich ystafell ddosbarth.

Ein Huchafbwynt – Teithiau Aur Du

HYGYRCHEDD

Mae ein canolfan i ymwelwyr a’n gweithdai yn gwbl hygyrch.
Mae modd cael mynediad i’r rhan fwyaf o’r safle mewn cadair olwyn. Oherwydd natur hanesyddol y profiad tanddaearol, efallai bydd hi’n anodd cael mynediad i rannau o’r daith. **I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni.**

Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anhwylder y Sbectrwm Awtistig ac rydyn ni’n falch o fod yn safle sy’n gyfeillgar i bobl ag awtistiaeth.

GRWPIAU

Mae modd i ni gynnig gwasanaeth ar gyfer grŵp o unrhyw faint. Rydyn ni’n gofyn bod un oedolyn sy’n goruchwylio fesul 10 o blant.

Oriau Agor

Yn ystod y tymor
Dydd Mawrth i **Ddydd Gwener** 9am – 4pm
Eithrio mis Tachwedd a Rhagfyr

Glofa Lewis Merthyr
Coed Cae Road, Trehafod
Rhondda Cynon Taf CF37 2NP

✉ **DerbynfaParcTreftadaeth@rctcbc.gov.uk**
☎ **01443 682036**